Dyma Ania Rolewska gyda chrynodeb o newyddion o Wlad Pwyl, 28ain o Fai 2014.

00:12 I ddechrau, mater sydd ar wefusau pawb, sef etholiadau i Senedd Ewrop. Yn unol â'r tueddiad yng ngwledydd eraill, bu pleidiau Ewro-sgeptig adain dde yn llwyddiannus iawn yng Ngwlad Pwyl. Amddiffynnodd 'Blatfform Dinesig', sydd mewn grym ar hyn o bryd, ei safle goruchaf o ran canran y bleidlais, ond daeth dim ond o drwch y blewyn o flaen yr wrthblaid bennaf ar y dde, sef 'Cyfraith a Chyfiawnder'. Cipiodd y ddwy blaid yr un nifer o seddi, sef 19 yr un. Yn fwy trawiadol, enillwyd 4 sedd ymhellach gan fudiad radical iawn 'Adain De Newydd'. Mae Janusz Korwin Mikke, y gwleidyddwr wrth lyw'r blaid newydd, yn gymeriad lliwgar, gydag enw drwg am farnau dadleuol niferus. Dim ond yn ddiweddar, datganodd ar yr awyr nad yw menywod yr un mor ddeallus â dynion, ac na ddylent bleidleisio, cyn awgrymu bod merched yn mwynhau trais rhywiol. Mae'n ymddangos nad yw barnau personol Mr Korwin Mikke wedi digalonni ei etholwyr; cafodd gefnogaeth sylweddol, yn enwedig gan bobl ifanc, sydd wedi pleidleisio yn ei niferoedd dros bleidiau Ewro-sgeptig eleni. Mae 'Platfform Dinesig' yn ceisio codi calonnau gan esgeuluso perfformiad da'r radicaliaid fel 'pleidlais brotest'. Yn wir, er gwaethaf cynlluniau ariannu sylweddol a marchnad gwaith agored mae'n ymddangos bod y gymdeithas Bwyleg wedi cael ei siomi yn barhaol gan oblygiadau o fod yn rhan o gymuned Ewropeaidd. Ond beth sy'n fwy sylweddol fyth ym marn yr etholwyr yw diffyg arweiniad gwleidyddol cryf gartref. Dywedodd y genedl 'Na' atseiniol i wleidyddiaeth lugoer dydd Sul a bydd Senedd Ewrop yn sicr o ddioddef o ganlyniad.

02:19 Fu farw Wojciech Jaruzelski ar 25ain o Fai. Fe fu'n swyddog milwrol ac un o arweinwyr y Blaid Gomiwnyddol yng Ngwald Pwyl ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Tra iddo fod mewn grym, daeth yn ddrwg-enwog am gychwyn polisïau gwrth-Iddeweg yn y fyddin ac am ddofi'n waedlyd gwrthdystiadau yn erbyn y llywodraeth. Chwaraeodd rôl allweddol mewn cyflwyno rheolaeth filwrol anghyfansoddiadol yn 1981 mewn ymateb i aflonyddwch cymdeithasol cynyddol. Er gwaethaf ei rôl ganolog fel swyddog Comiwnyddol, bu hefyd un o benseiri trafodaethau'r Bwrdd Crwn yn 1989 lle cytunwyd byddai'r blaid Gomiwnyddol yn ildio pŵer yn raddol ac yn caniatáu etholiad democrataidd. Fel rhan o gytundeb hwn, daeth Jaruzelski yn arlywydd cyntaf Gweriniaeth Gwlad Pwyl ers yr Ail Ryfel Byd. Er gwaethaf ei iechyd bregus daeth gerbron llys ambell waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf; wynebodd cyhuddiadau o gyfrifoldeb dros lofruddiaeth, ymddygiad anghyfansoddiadol, ac aelodaeth mewn mudiad anghyfreithlon. Hyd yn oed heddiw, mae Jaruzelski yn rhannu barn gyhoeddus. Bradwr ei genedl yw ef i rai; mae eraill yn ei ystyried ef fel gwladweinydd arbennig, ac yn pwysleisio ei gyfraniad at gyrraedd cytundeb y Bwrdd Crwn ,a bywyd gwleidyddol mewn Gwlad Pwyl ddemocrataidd. Un peth sy'n sicr - nid oes gobaith bydd dadleuon dros ei fywyd yn dod i ben gyda'i farwolaeth.

04:11 Mae helynt parhaol yn yr Wcráin yn bwnc hollbresennol yn y cyfryngau Pwyleg o hyd. Mae'r wasg yn rhannu sylw rhwng canlyniadau etholiad arlywydd a brwydro parhaol yn y dwyrain. Yn ôl canlyniad wedi ei gyhoeddi dydd Sul, Petro Poroszenko yw arlywydd newydd y wlad. Roedd dros 60 mil o heddweision yn gofalu dros drefniadau etholiadol ar y diwrnod, ond hyd yn oed gyda chymaint o swyddogion, cafwyd achosion lle ataliwyd pobl rhag pleidleisio gan filisia o blaid Rwsia. Enillodd Porszenko gyda mwyafrif trawiadol o bron 56 y cant, 43 pwynt o flaen ei wrthwynebwr nesaf, Julia Tymoszenko. Nid person cyffredin yw'r arlywydd newydd; oligarch yw ef, perchen i gwmni rhyngwladol cynhyrchu siocled a chyfoeth o dros 1.6 biliwn dollar. Mae dosbarth gwleidyddol yn y Wcráin yn llawn o oligarchiaid sydd wedi creu eu cyfoeth ar yr adeg cwymp yr Undeb Sofietaidd. Fodd bynnag, tanlinella gan sylwebwyr gwleidyddol bod Poroszenko yn wahanol iawn o gymharu â chyfoethogion eraill; mae'n fwy agored am ei fusnes ac yn fwy Rhyddfrydol yn ei agwedd tuag at Orllewin Ewrop. Bydd ei allu gwleidyddol yn cael ei roi ar brawf yn ddigon buan, mae'n ymddangos : mae Poroszenko i fod i gyfarfod a Barack Obama wythnos nesaf, a disgwylir bydd mater o gymorth milwrol yn cael ei godi. Wrth i'r etholiad gael ei chyflawni'n llwyddiannus ceir teimlad cyffredinol yn y wasg bod yr Wcráin wedi llwyddo i gadw Rwsia draw. Ymhellach, nid oes cymaint o ofn rhagor bydd uchelgeisiau tiriogaethol Rwsia'n ymestyn i gynnwys gwledydd Baltig eraill. Mae cwestiwn y nwy yn parhau fel pryder sylweddol, fodd bynnag - ac yn eironig, mae'n ymddangos bod cefnogaeth gadarn Ewrop yn galonogol i'r llywodraeth Bwyleg. Pwynt mewn dadl dros integreiddio Ewropeaidd, efallai?

06:40 Dyma oedd newyddion o Wlad Pwyl. Diolch am wrando.